Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 9 Hydref 2017 am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

36. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

37. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

38. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2017 yn gywir.

39. MATERION YN CODI
Gofynnodd y Clerc i aelodau'r Pwyllgor am eu barn ynghylch cais cynllunio **02/2017/0797 – Tir y tu ôl i Dŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun** yn dilyn derbyn eglurhad pellach gan y swyddog cynllunio. Penderfynwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

40. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc am y penderfyniadau cynllunio a ganlyn a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych:
02/2017/0542 – Black Dog Picture Framing, 7 Stryd Mwrog, Rhuthun – Rhannol ddymchwel adeilad unllawr ac adeiladu estyniad deulawr – Caniatawyd
02/2017/0603 – Clwb Rygbi Rhuthun, Lôn Fawr, Rhuthun – Gosod 4 colofn llifoleuo – Caniatawyd
02/2017/0778 – Tir yn Nhŷ Newydd, Llanfwrog, Rhuthun – Manylion mecanwaith ar gyfer sicrhau gwagle agored – Cymeradwywyd
02/2017/0722 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Amrywio amod rhif 2 i ganiatáu cyflwyno cynlluniau diwygiedig – Caniatawyd
02/2017/0436 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Gosod 6 golau safonol o gwmpas y maes parcio sy'n bodoli eisoes – Caniatawyd
02/2017/0760 – Tir yn Nhŷ Newydd, Llanfwrog, Rhuthun – Manylion parcio a throi cerbydau, draenio dŵr budr ac arwyneb a thriniaeth y ffiniau – Cymeradwywyd
02/2017/0508 – Tir yn (rhan o ardd) Stanley House, Stryd Llanrhydd, Rhuthun – Caniatawyd
02/2017/0845 – Fferm y Castell, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Dymchwel yr adeiladau sy'n bodoli eisoes ac adeiladu 1 annedd – Tynnwyd yn ôl
02/2017/0737 – 25 Llawr y Dyffryn, Rhuthun – Adeiladu estyniad i'r annedd - Caniatawyd

41. CEISIADAU CYNLLUNIO
Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau am ganiatâd cynllunio a ganlyn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gael eu sylwadau.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn:*
02/2017/0881 – 2 Maes y Dre, Ruthin
Adeiladu porth i'r blaen.
02/2017/0918 - Castell Newydd, 30 Stryd y Brython, Rhuthun
Gwaith i dair coeden sy'n cael eu cwmpasu gan Orchymyn Cadw Coed T1 Parc Brynhyfryd, Rhuthun.
02/2017/0899 - 8/8a Stryd y Farchnad, Rhuthun
Amrywio amod rhif 1 caniatâd cynllunio cod 02/2012/0929 i ganiatáu 5 mlynedd ychwanegol ar gyfer dechrau'r gwaith.

42. YMGYNGHORIAD AR ADRODDIAD ADOLYGU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL A'R CYTUNDEB CYFLENWI DRAFFT AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Adroddodd y Cynghorydd Heather Williams bod y dogfennau'n amlinellu'r broses ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf, ac yn nodi maint a chapasiti'r tîm Polisi Cynllunio fel risg canolig o ran cwblhau'r cynllun ar amser. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Williams am ei hadborth.

PENDERFYNWYD*: nodi'r dogfennau ymgynghori.*

43. CYNHADLEDD FLYNYDDOL CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU

Ystyriodd yr aelod wahoddiad i Gynhadledd Flynyddol Cymorth Cynllunio Cymru ar 8 Tachwedd 2017 yng Nghaerdydd. Ystyriodd yr aelodau a fyddai hyn yn cynrychioli gwerth am arian o ran y gost ac amser aelodau'r Pwyllgor cynllunio a thrigolion Rhuthun.

PENDERFYNWYD*: peidio ag anfon cynrychiolydd i Gynhadledd Flynyddol Cymorth Cynllunio Cymru ond ystyried cyfleoedd hyfforddiant mwy lleol yn y dyfodol.*

44. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 13 Tachwedd 2017, am 6:45p.m.*